
| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **TEITL** | **Adnoddau i Gefnogi Gwaith Aelodau** |
| **AWDUR** | Geraint George<br>Pennaeth Gwasanaeth Strategol a Gwella |
| **AELOD CABINET** | Cyng. Ioan Thomas |
| | |
| **Beth yw diben yr adroddiad?** | Yr angen i ddwyn i sylw Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd nad oes modd gwireddu un o'r cynlluniau arbedion a pharhau i roi'r gefnogaeth angenrheidiol i Aelodau'r Cyngor |
| **Argymhellion** | Gwneud cais i ddileu cynllun o'r Strategaeth Ariannol |

## 1. Cefndir

1.1 Un o gyfrifoldebau sylfaenol y Pwyllgor hwn yw sicrhau bod staff ac adnoddau digonol yn cael eu darparu i gefnogi aelodau ac, yn y cyd-destun hynny, mae un mater sydd angen sylw gan y Pwyllgor o ran lefel y gefnogaeth i drwch aelodau'r Cyngor.

## 2. Y Gofyn am Arbediad

2.1 Mae "Strategaeth Ariannol 2012/13 - 2014/15", fel y cytunwyd gan y Cyngor ar 1 Mawrth 2012 yn gysylltiedig â gwireddu sawl ffrwd ariannol benodol i gwrdd â'r diffyg cyllidebol o oddeutu £37m rhwng 2011/12 - 2014/15 fel y cyfeirir ato yn y tabl isod.



2.2 Fel rhan o’r pecyn o Arbedion Effeithlonrwydd a gyflwynwyd gan Adrannau’r Cyngor cyfwerth ag 1% (£5.3m) o gyllidebau’r holl adrannau dros y 3 blynedd 2012/13 – 2014/15, un o’r cynlluniau a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Democratiaeth a Chyfreithiol i’w wireddu yn 2013/14 oedd:

“Gwasanaeth Democrataidd **-** Yn unol â'r disgwyliadau yn y Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011 bydd gofyn i'r Cyngor ailstrwythuro'r gwasanaethau democrataidd (pwyllgorau, cefnogaeth aelodau a chraffu) fel eu bod i gyd yn atebol i un swyddog sy'n bennaeth democratiaeth.” (Roedd y Cynllun yn bwriadu gwireddu arbediad o £54,000)

2.3 Ar y pryd, roedd peth aneglurder parthed y sefyllfa a’r gefnogaeth fyddai ei hangen, ac o ganlyniad, cyflwynwyd y cynllun gydag asesiad realiti cyflawni “Ambr”, sef rhai risgiau i gyflawni.

2.4 Wrth sefydlu’r Gwasanaethau Democrataidd newydd ar ôl yr etholiadau, gwnaed nifer o gamau i geisio cyfarfod â’r gofynion newydd o fewn yr adnoddau a oedd ar gael. Gwnaed hyn fel rhan o becyn o arbedion a oedd yn cael eu datblygu gennyf wrth ail-strwythuro fy adran, pecyn sydd am gynhyrchu oddeutu £75,000 pellach o arbedion dros ben unrhyw dargedau a osodwyd.

2.5 Erbyn hyn, gyda’r Gwasanaeth i Aelodau o dan y trefniadau newydd wedi cael ei sefydlu, awgrymaf fod y sefyllfa o ran y gofynion yn fwy eglur , mae bellach yn amlwg bod angen parhau’r swyddi sy’n darparu’r gefnogaeth wleidyddol. O ganlyniad, nid oes modd gwireddu’r cynllun arfaethedig a oedd i sicrhau arbediad o £54,000 yng nghyllideb yr Adran Democratiaeth a Chyfreithiol

## 3. Argymhelliad

3.1 Derbyn nad oes modd gwireddu’r cynllun hwn a chyflawni’r angen o roi’r gefnogaeth angenrheidiol i Aelodau’r Cyngor. Awgrymir felly wneud cais i’r Aelod Cabinet (Adnoddau) y bydd modd addasu’r Strategaeth Arbedion i gydnabod hynny.